SUL CYFFREDIN 26

HABACUC 1:1-4; 2:1-4; SALM 119:137-144;
2 THESALONIAID 1:1-4, 11-12; LUC 19:1-10

● **Gweddi agoriadol**

Dad, Mab ac Ysbryd Glân,
bendithia ni wrth gyfarfod,
ein siarad a'n gwrando,
ein rhannu a'n haddoli,
ein rhoi a'n derbyn,
ein mynd a'n dod.

● **Moliant**

Dduw Waredwr,
daethost i'r byd
nid yn arweinydd pobl,
ond yn was a chyfaill.
Daethost i'r byd
nid i chwilio am y da
ond i gasglu'r rhai ar goll.
Daethost i'r byd
yn iachäwr cyrff
a gwaredwr eneidiau.
Daethost i'r byd
yn Dywysog Tangnefedd
a chân i bawb.
Daethost i'r byd
er mwyn pobl fel ni.

● **Cyffes**

Pan alwn ar dy enw
ar adegau anodd
neu anobaith
a methu clywed dy lais
neu weld yr ateb a ddymunwn,
maddau ein diffyg amynedd.

Pan weddïwn am iachâd,
rhyddid o ofn
neu ddianc o afael drygioni,
a blino ar y dasg o
barhau mewn gweddi,
maddau ein diffyg ffydd.

Nid dy ffyrdd di yw ein ffyrdd ni,
ond ym mhopeth ti sydd Dduw;
bydd dy gariad a'th gyfiawnder
wastad yn sefyll.
Yn dy amser ac yn dy ffordd
byddi yn ateb ein gweddïau.

● Diolch

Am dy holl weision
a aeth o'n blaenau
a, thrwy eu hesiampl,
a'n dygodd at dy orsedd,
cyflwynwn ein diolch cywir.

Am bawb, drwy
ddyddiau a nosweithiau tywyll,
a ddaliodd at eu ffydd
yn wyneb y gelyn enbytaf,
cyflwynwn ein diolch cywir.

Am dy holl blant
ddaeth ynghyd yma heddiw,
sydd yn eu gwasanaeth
yn dangos dy gariad yn y byd,
cyflwynwn ein diolch cywir.